ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

28ain Ebrill, 2022

Annwyl Riant/Gwarcheidwaid,

**Asesiadau Personol Llythrennedd a Rhifedd (ar-lein)/**
**Literacy and Numeracy Personalised Assessments (online)**

Ysgrifennwn atoch i hysbysu bydd disgyblion blwyddyn 9 yn cwblhau asesiadau personol llythrennedd a rhifedd ar-lein yn ystod yr wythnos o'r **9fed-13eg o Fai.** Mae'r asesiadau yma yn ffocysu ar fedrau llythrennedd a rhifedd, a bydd pob disgybl yn cwblhau 4 asesiad ar-lein ar y diwrnodau canlynol (yn ystod gwersi 2 a 3):

9 Mai: Rhifedd (gweithdrefnol)
10 Mai: Cymraeg (darllen)
11 Mai: Saesneg (darllen)
12 Mai: Rhifedd (rhesymu)

Byddwch yn derbyn adborth unigol i'ch plentyn ar sail yr asesiadau yma fel rhan o'r adroddiad cynydd eleni. Bydd disgyblion yn cael cyfle i ymarfer y math o gwestiynau yn ystod eu gwersi Cymraeg, Mathemateg a Saesneg, a'u gwersi Mentro.

Gweler rhagor o fanylion ar wefan llywodraeth Cymru: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/asesiadau-darllen-a-rhifedd/asesiadau-personol-gwybodaeth-i-rieni-a-gofalwyr/

Mae'r fideo yma hefyd yn crynhoi pwrpas a diben yr asesiadau yma:
https://www.youtube.com/watch?v=M187gJQ4Jeg

Hoffwn bwysleisio nad oes angen i ddisgyblion bryderu am yr asesiadau yma, ond wrth gwrs, anogwn i bawb ymgyfarwyddo â'r deunydd paratoi.

Bydd disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn y gefnogaeth briodol (ac amser ychwanegol os yn gymwys) fel rhan o'r asesiadau yma. Plîs cysylltwch â minnau os hoffech wybodaeth bellach drwy ShawC36@hwbcymru.net neu fanylion cyswllt yr ysgol isod.

Yn gywir,

Mr Chris Shaw (Pennaeth Cynorthwyol)

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol sy'n parchu hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi School of Rugby
Buddsoddwyr Mewn Pobl Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales